



Polisi Disgyblaeth / Gwrth Fwlio

Pennaeth: Mr Dyfan Phillips

Dyddiad Derbyn Corff Llywodraethol	Mawrth 2025
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mawrth 2027
Llofnod y Pennaeth	<i>Dyfan Phillips</i>
Llofnod Cadeirydd y Corff	<i>Huw Hilditch-Roberts</i>

Ysgol Pen Barras

Polisi Disgyblaeth / Gwrth-fwlio

Dyddiad y Polisi: Mawrth 2024

Enw'r person a chyfrifoldeb penodol. Dyfan Phillips (Pennaeth)

Enw'r Llywodraethwr â chyfrifoldeb penodol. Mr Ceri Ranson

Disgrifiad o'r broses llunio'r Polisi a'r broses ymgynghori:

Mae pob aelod o Staff yr ysgol yn rhan o gynllunio'r polisi hwn ac fe'i cyflwynwyd i'r bwrdd llywodraethol yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025 Mae'r Polisi yn cydymffurfio a Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal â hyn trafodwyd amcanion y polisi gyda'r disgyblion ac fe adolygir hyn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ysgol.

Prif Egwyddorion a Gwerthoedd

"Ceir y prif egwyddorion yng 'Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn.

Gellir ystyried y gwerthoedd a'r credoau sy'n sylfaen i'r polisi yng nghyd-destun y datganiadau isod:

- Mae pob math o fwlio yn annerbyniol, waeth sut mae'n cael ei gyflawni na pha esgusodion a gynigir i gyfiawnhau'r ymddygiad;
- Mae pob plentyn/person ifanc yn haeddu derbyn eu haddysg heb sarhad, gorthrwm na chamdriniaeth. Mae gan bob unigolyn sy'n rhan o'r ysgol hon gyfrifoldeb i weithredu i ofalu am ei gilydd;
- Mae'r ysgol yn cydnabod yr effaith andwyol ar ddisgyblion sy'n dioddef bwlio a bydd yn gweithio'n galed i leihau'r risg;
- Mae'r ysgol yn cydnabod fod rhaid cymryd camau i ymdrin â bwlio rhywiol, hiliol a homoffonig neu unrhyw fwlio arall wedi'i seilio ar wahaniaeth;
- Bydd dioddefwyr bwlio yn cael eu trin mewn modd cefnogol a rhaid sicrhau y cynigir gofal ar ôl dioddef bwlio;
- Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddisgyblion, p'un ai ydynt ar gofrestr yr ysgol ar sail barhaol neu dros dro.

Diffiniadau bwlio

Diffiniadau bwlio gan blant:

- Bwli yw unigolyn sy'n gwneud bywyd yn anodd i eraill drwy bigo arnynt yn fwriadol yn ddiresswm;
- Dydy bwlio ddim yn digwydd unwaith yn unig ond llawer o weithiau;
- Gall fod yn daro, cicio, tynnu gwalt a phethau eraill sy'n brifo'r corff;
- Gall fod yn lleadaenu straeon, galw enwau neu fygythiadau sy'n eich brifo y tu mewn ac yn gwneud i chi ofni. Mae bwlio yn gas.

Mae diffiniadau eraill yn cynnwys:

- Lleadaenu sŵn maleisus, neu sarhau rhywun drwy eiriau neu ymddygiad wedi ei seilio ar sail hil, rhyw, anabledd neu sail arall;
- Copio a dosbarthu nodiadau neu negeseuon testun ac ati sy'n feirniadol o rywun - pigo arnynt;

Gweithio gyda'n Gilydd: Rhannu'r Cyfrifoldeb

Mae camau ymarferol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr, athrawon a staff cefnogi a staff atodol eu dilyn, fel y nodir isod:

Rhaid i rieni:

- Gysylltu â'r ysgol os ydych yn ymwybodol o neu'n amau fod bwlio'n digwydd;
- Annog eich plant i BEIDIO ag ymddwyn yn ymosodol tuag at ei gilydd;
- Gefnogi'r ysgol os gweithredir camau pellach.

Rhaid i ddisgyblion:

- Ddweud wrth rywun ac ymddiried yn y staff i weithredu ar eu rhan;
- Fod yn ymwybodol o'r gwobrau a'r cosbau a ddefnyddir yn yr ysgol;
- Beidio â sefyll i'r naill ochr a gwneud dim neu chwerthin pan yw bwlio'n digwydd;
- Ceisio bod yn gymwynasgar a charedig tuag at bobl eraill bob amser;
- Derbyn cosb os canfyddir eu bod yn bwlio.

Rhaid i Lywodraethwyr:

- Wybod am a deall y polisi;

- Cefnogi'r staff wrth weithredu'r polisi;
- Cyflawni rôl weithredol wrth adolygu a chynnal y polisi.

Rhaid i athrawon a staff cefnogi/atodol:

- Fod yn barod i wneud amser i wrando ar blant a'u cymryd o ddifri';
- Cadw llygad am ymddygiad bwlio posibl a bod yn ymwybodol o unrhyw brif fannau bwlio;
- Sefydlu cyfleoedd rheolaidd i blant siarad am fwlio;
- Cynnwys addysgu am ymddygiad cadarnhaol ymhob agwedd o'r cwricwlwm;
- Gweithredu'r polisi ysgol gyfan o ran gwobrau a chosbau;
- Sicrhau bod y trefniadau adrodd am achlysuron bwlio yn glir;
- Ystyried ein hymddygiad ein hunain i sicrhau nad ydym yn bwlio disgyblion, cydweithwyr neu rieni;
- Sicrhau bod popeth rydym ni'n ei wneud yn cyfleu'r neges nad yw bwlio yn dderbyniol;
- Annog cyfrifoldeb am y cyd o ran perchnogaeth y broblem.

Rhannu'r Polisi Gwrth-fwlio

- Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ynglŷn ag ymddygiad/bwlio o fewn yr ysgol ac yn cydymffurfio i bolisi "Anelu am y Ser"
- Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol newydd bydd y Pennaeth yn trafod ymddygiad/bwlio gyda'r plant yn ystod gwasanaethau. Bydd yr athrawon yn trafod bwlio yn achlysuol yn ystod gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.
- Mae rheolau'r ysgol "Anelu am y Ser" yn cael eu harddangos yn glir yn y dosbarthiadau.
- Ar ddechrau'r flwyddyn bydd yr athrawon yn adolygu rheolau ysgol/dosbarth gyda'r plant ac yn sicrhau eu bod yn rhan o'r broses ac yn glir ar ran disgwyliadau/trefn cosb ayb.
- Trafodir safonau ymddygiad/bwlio yn rheolaidd yn ystod cyfnodau **Amser Cylch/Amser Gwir yn wythnosol** yn y dosbarth.
- Rhoddir taflen Polisi Disgyblaeth yr ysgol ym mhecyn llawlyfr y rhieni
- Trafodir unrhyw fater difrifol sy'n achosi pryder gyda'r athrawon, uwch dim a Gwasanaeth Ymddygiad- os yn berthnasol.
- Trafodir unrhyw faterion pwysig sy'n codi gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr / Llywodraethwyr
- Trafodir polisi'r ysgol gyda'r Llywodraethwyr bob dwy flynedd.
- Mae'r ysgol yn cefnogi wythnos genedlaethol gwrth fwlio yn mis Hydref ac yn ei weld fel cyfle i hyrwyddo pwysigrwydd o adnabod.

Gweithio mewn Partneriaeth- Goblygiadau i ymddygiad annerbyniol

Yn naturiol, rhaid i'r ysgol fod a deilliannau clir wrth ymateb i unrhyw ymddygiad annerbyniol gan ddisgyblion.

Mae hyn er mwyn atgyfnerthu disgwyliadau a i sicrhau na fydd y fath ymddygiad yn cael ei ail adrodd.

Mae camau disgylu'r ysgol yn cynnwys y canolynol

Anelu am y Ser-

Egwyddordion ein Polisi- Oes yw plant yn mynd yn goes i'r egwyddorion yma, yna fe ddilynir y trefniadau canlynol:



1. Rhybudd ar lafar
2. Cerdyn Melyn- Methu cyfnod o amser chwarae
3. Cerdyn Coch- swgrs gyda'r pennae a galwad ffon adref.

*Os yw problemau ymddygiad yn parhau, gall yr ysgol gyfeirio'r plentyn at Wasanaeth Ymddygiad Sir Ddinbych.

*Os oes dystiolaeth parhaus o ymddygiad annerbyniol sy'n peri risg iechyd a diogelwch, gall yr ysgol benderfyny wahardd y plentyn o'r ysgol (Unol a pholisi gwaharddiadau).

Trefn Monitro, Gwerthuso ac Adolygu'r Polisi Gwrth-fwllo

Adolygir y polisi bob dwy flynedd. Dyddiad adolygu'r polisi yw Tymor yr Haf 2025.

YSGOL PEN BARRAS EIN SAFONAU YMDDYGIAD

Yr un rheol bwysig i bob un o honom yw:

**Y BYDD PAWB YN YMDDWYN YN FOESGAR A
CHWRTAIS GAN FEDDWL AM ERAILL BOB AMSER**

1. Ein bod bob amser yn ceisio deall a derbyn barn eraill
2. Yn y dosbarth rydym yn ceisio bob amser ei gwneud hi'n hawdd i'r plant eraill ddysgu ac i'r athro/athrawes wneud eu gwaith. (Mae hyn yn golygu cyrraedd y dosbarth ar amser, dod i mewn a mynd allan o'r dosbarth yn dawel a chwrtais, gwrando'n astud, dilyn gorchmynion, helpu eraill pan fo angen a bod yn ddistaw a chall bob amser).
3. Rydym yn symud o amgylch yr ysgol yn ddistaw ac yn bwyllog. (Mae hyn yn golygu nad ydym yn rhedeg, gwthio na gweiddi, ond yn ceisio helpu ein gilydd drwy agor drysau i eraill, gadael i bobl fynd heibio wrth y drysau a helpu i gario pethau). Rydym yn cadw i'r chwith ar hyd y corridor ac ar y grisiau.
4. Rydym bob amser yn siarad yn gwrtais (hyd yn oed os ydym yn teimlo'n flin) a bob amser yn siarad heb weiddi.
5. Rydym yn cadw'r ysgol yn daclus a glân er mwyn gwneud ein hysgol yn le braf i bawb. (Mae hyn yn golygu rhoi sbwriel mewn bin sbwriel, rhoi ein cotiau a'n bagiau yn daclus ar y pegiau, cadw waliau a dodrefn yn lân, gofalu am unrhyw arddangosfeydd, ac yn enwedig gofalu'n ofalus am waith eraill).
6. Pan yr ydym allan, ar y buarth a'r cae, wrth y giât, wrth gerdded gyda grwpiau y tu allan i'r ysgol rydym yn cofio ein bod yn cynrychioli'r ysgol ac felly mae'n rhaid ymddwyn yn dda bob amser.
7. Os yw ein gwaith yn dda a'n hymddygiad yn dda, byddwn yn cael ein clodfori gan yr athrawon a'r staff ac yn cael pwytiau tai, sêr yr wythnos neu ganmoliaeth dosbarth.
8. Rydym yn dilyn dull disgyblaeth bendant drwy'r Ysgol:

RHEOLAU DISGYBLAETH BENDANT

1. Rhybudd ar lafar
2. Rhybudd ar y siart
3. CAM 1 Ysgrifennu nodyn o ymddiheuriad
4. CAM 2 Amser i feddw (Egwyl cyfan)
5. CAM 3 Amser i feddw (Cyfnod hirach)
6. Cysylltu a'r Pennaeth
7. Rhieni i'r ysgol
8. Gwahardd o'r ysgol

Bydd yr ysgol yn trafod ein hymddygiad gydag ein rhieni a byddwn yn cael ein rhoi ar gerdyn

disgyblaeth neu dyddiadur ysgol/cartref. Bydd y staff yn monitro safon ein hymddygiad gyda'n rhieni.

9. Os yw ein hymddygiad yn gwaethygu ar ôl hyn i gyd, yna byddwn yn cael ein gwahardd o'r ysgol, naill ai am gyfnod o ddiwrnodau neu os yw ein hymddygiad yn warthus, am byth.

YSGOL Y LLYS

BWLIO

NID YDYM YN DERBYN UNRHYW FATH O FWLIO YN YSGOL Y LLYS. DYMA RAI O'R PETHAU YR YDYM AM WNEUD OS OES UNRHYW FWLIO:

PLANT

Beth ydy BWLIO?

- o Bwli yw unigolyn sy'n gwneud bywyd yn anodd i eraill drwy bigo arnynt yn fwriadol yn ddi-reswm
- o Dydy bwlio ddim yn digwydd unwaith yn unig ond llawer o weithiau
- o Gall fod yn daro, cicio, tynnu gwaltt a phethau eraill sy'n brifo'r corff
- o Gall fod yn creu straeon, galw enwau neu bygwth sy'n eich brifo y tu mewn ac yn gwneud i chi ofni. Mae bwlio yn gas.
- o Dweud pethau cas sydd wedi ei seilio ar sail hil, rhyw neu anabledd.
- o

Beth fedrwch chi ei wneud?

1. Rydych i ddweud wrth unrhyw aelod o'r Staff yn syth.
2. Peidiwch â bod ag ofn bod yn wahanol. Mae pawb yn ein hysgol ni yn arbennig.
3. Ceisiwch beidio cymeryd sylw o bobl yn galw enwau arnoch - dywedwch wrth aelod o'r staff.
4. Peidiwch â dangos eich bod ag ofn.
5. Os oes rhywun yn pigo arnoch chi gwaeddwch yn uchel i dynnu sylw pawb at y sefyllfa - RHAID DWEUD.
6. Peidiwch byth ag ochri gyda bwli – sefwch yn gadarn wrth ochr yr un sy'n cael ei b/fwlio.
7. Os ydach chi yn gwybod bod rhywun arall yn cael ei bwlio dywedwch wrth aelod o'r Staff .
8. Mae cyfle ichi rannu eich teimladau yn ystod Cylch amser/Cylch gwir- cofiwch wneud.
9. Bydd y Staff yn rhannu unrhyw fater o fwlio gyda rhieni'r bwli a gyda rhieni'r plentyn sydd wedi cael ei fwlio.

STAFF

1. Nid ydym yn derbyn bwlio mewn unrhyw ffurf ac mae'n bwysig bod pawb yn yr ysgol yn cyd-weithio i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd.
2. Rydym yn trafod bwlio yn y dosbarth, yn ystod gwasanaethau ysgol a hefyd yn ystod Cylch amser/gwir.
3. Rydym am geisio annog y plant i helpu'r rhai sy'n bwlio i ddod yn rhan o'r grŵp a deall pa mor greulon y maent wedi bod (Cylch amser/Cylch gwir)
4. Os oes bwlio yn digwydd yna rhaid siarad gyda'r bwli a'r dioddefwr.
5. Rydym yn trafod atebion neu gosb gyda'r plant a'i rhieni.

MAE'N BWYSIG EIN BOD YN AGORED AC YN TRAFOD EIN TEIMLADAU

YSGOL Y LLYS

Taflen wybodaeth i'r rhieni

POLISI DISGYBLAETH

YSGOL Y LLYS

Discipline / Anti Bullying Policy

Disgyblaeth Bendant

Yn Ysgol y Llys rydym wedi mabwysiadu dull “Disgyblaeth Bendant” o ddisgyblu drwy’r ysgol. Mae’r dull wedi cael ei gymeradwyo gan Awdurdod Addysg Sir Ddinbych.

Yn ein hysgol rydym wedi datblygu disgyblaeth bositif ac mae gennym system wobrwyo e.e.

Uned dan 12 : Pwyntiau llys, Seren (Sêr) yr Wythnos, Siaradwyr Cymraeg yr Wythnos

Uned dan 9: Pwyntiau llys, Seren (Sêr) yr Wythnos, Siaradwyr Cymraeg yr Wythnos, Pwyntiau Grwp

Uned dan 7: Pwyntiau llys, Siaradwr Cymraeg yr Wythnos, Disgybl yr Wythnos, Sticeri canmol.

Uned dan 5: Pwyntiau llys, Siaradwr Cymraeg yr Wythnos, Sticeri Canmol.

Ar ddechrau pob blwyddyn addysgol mae plant yn cael eu hannog i greu rheolau dosbarth eu hunain- Y nhw sy’n berchen ar y rheolau hyn.

Yna fe gyflwynir/adolygir y drefn Disgyblaeth Bendant o geryddu – mae ei lwyddiant yn dibynnu ar y ffaith fod y plant yn gyfarwydd hefo’r broses a’r canlyniadau os ydynt yn torri’r rheolau.

Mae’r drefn ceryddu fel a ganlyn:

RHEOLAU DISGYBLAETH BENDANT

1. Rhybudd ar lafar
2. Rhybudd ar y siart
3. CAM 1 Ysgrifennu nodyn o ymddiheuriad
4. CAM 2 Amser i feddw (Egwyl cyfan)
5. CAM 3 Amser i feddw (Cyfnod hirach)
6. Cysylltu a’r Penaneth
7. Rhieni i’r ysgol
8. Gwahardd o’r ysgol

Mae’r camau uchod yn brintiedig yn y dosbarth, ac os yw plentyn yn cael ei geryddu yna mae’r cam/camau perthnasol yn cael eu nodi yn erbyn enw’r plentyn ac yn cael ei/eu gweithredu. Mae taflen cofnod i’r athro a’r plentyn gyfeirio ato os/pan fydd angen.

Defnyddir y system CYLCH AMSER fel rhan o bolisi bugeliol yr ysgol. Yn ystod yr amser hwn caiff pob plentyn y cyfle i rannu ei deimladau/theimladau mewn awyrgylch ddiogel a “dim bai”. Mae hefyd yn gyfle i’r athro ddod yn ymwybodol o unrhyw broblemau all godi o bryd i’w gilydd.

Ni chaniateir unrhyw **FWLIO** yn yr ysgol. Mae’n bwysig eich bod chi yn rhannu unrhyw bryderon sydd gennych am eich plentyn gyda’r Ysgol -os yn fwli neu yn ddioddefwr. Mae gan yr ysgol bolisi i drafod bwlio yn agored- i adnabod, ymateb a datrys.

Fel staff teimlwn ei bod hi’n bwysig eich bod chi, fel rhieni, yn deall proses disgyblaeth yr ysgol, a gobeithiwn y gwnewch ein cefnogi ni yn y mater yma. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â’r polisi, yna mae croeso i chi gysylltu â’r ysgol.

Date of policy: June 2023

Named person with responsibility. Dyfan Phillips (Headteacher)

Governor with responsibility. Mr Mike O’Meara / Lesley Holmes Pierce

Description of the process of drafting the policy and consultation process:

Each member of staff has contributed to the policy and it will be presented to the Governing Body for approval at the end of the Summer Term 2023. The policy adheres to the 2010 Equality Law. In addition, the policy was discussed with school pupils and will be reviewed continuously during the next academic year.

Main Principles and Values:

"The main principles are found in the United Nations principles of the Rights of the Child".

The values and beliefs which form the basis of the policy may be considered in the context of the statements below:

- All types of bullying are unacceptable; however, they may be perceived and despite any excuses which may be given as justification for the behaviour;
- Each child/ young person deserves an education without prejudice, threat of violence or harm. Each individual that is part of the school has a responsibility to act to care for each other;
- The school recognises the negative effect bullying has on the victim, and works in partnership to reduce the risk;
- The school recognises that it has a duty to take steps to deal with bullying, be it based on either a sexual, ethnicity, homophobic or any other type of bullying based on difference;
- The victims of bullying are treated in a supportive manner and are offered care following any bullying;
- This policy is put in place to safeguard all pupils; either on the school register permanently or temporarily.

School Ethos and Environment.

Please refer to following documents:

OUR BEHAVIOUR STANDARDS

BULLYING

ASSERTIVE DISCIPLINE

- The whole school staff are aware of the 'Assertive Discipline' procedures at Ysgol y Llys. The scheme has been approved by Denbighshire County Council. This policy plays a vital role in ensuring high pupil standards at Ysgol y Llys.
- The teachers / staff conduct weekly Circle Time Sessions with pupils and behaviour/bullying is a key feature. Children are encouraged to share their feelings in a safe environment without prejudice.
- If a pupil experiences difficulty and becomes a bully or a victim of bullying, then the staff and head teacher will monitor the situation carefully by holding regular discussions with the pupil. If the pupil remains unhappy, then the teacher will request he/she be given a feelings monitoring card to ensure the pupil has time to share his/her feelings.
- We have a Well-being and Nurture room which is set up and run effectively by staff. Our Inclusion team is co-ordinated by Mrs Glesni Thomas, ALNCO.
- The head teacher discusses any behaviour issues with the senior management on a regular basis. We do not dismiss or hide incidents of bullying, but recognise, respond and resolve issues.

Definitions of Bullying:

A bully is defined by pupils as:

- A bully is an individual who makes life hard for others through picking on them intentionally and without reason.
- Bullying does not happen on one occasion but rather on numerous occasions.
- It may mean kicking, hair pulling or other things which hurt the body;
- It may be telling tales, name calling or threats which hurt you on the inside and make you feel afraid.

Other definitions include:

- Spreading malicious rumours, through words or behaviour which is based upon creed, sexuality, disability or any other reason.
- Copying and spreading notes or text messages which can be deemed judgmental of others- picking on others.

Working in Partnership: Sharing Responsibility

Practical steps are noted for parents, pupils, governors, teachers and staff to take in response to allegations of bullying.

Parents must:

- Contact school immediately if they are aware that any bullying is happening.
- Encourage their child NOT to respond aggressively.

- *Support the school following any actions that may be taken.*

Pupils must:

- *Tell someone, and trust staff to take action.*
- *Be aware of school reward and discipline procedures.*
- *Not stand aside and do nothing or laugh when bullying happens.*
- *Be kind and courteous to others at all times.*
- *Accept punishment if found to be a bully.*

Governors must:

- *Understand and support the policy.*
- *Support staff in administrating the policy.*
- *Play an active role in reviewing the policy.*

Teachers and School Staff must:

- *Be prepared to listen to pupils, and take them seriously.*
- *Be vigilant for signs of bullying and be aware of areas in which bullying could occur.*
- *Establish specific opportunities for children to discuss bullying and its effects.*
- *Include teaching positive behaviour in all aspects of the curriculum.*
- *Implement the policy including rewards and sanctions.*
- *Ensure that the process for reporting on bullying is clear.*
- *Consider our own behaviours to ensure that we do not bully pupils, co-workers or parents.*
- *Ensure that everything we do conveys the message that bullying is unacceptable.*
- *Encourage a shared responsibility and accountability of any problems which may occur.*

Sharing the Anti-Bullying Policy.

- *Each member of staff is aware of the policy and adheres to the behaviours /bullying guidelines set out in the 'Assertive Discipline' Procedures.*
- *At the start of the new academic year the head teacher will discuss behaviour /bullying with the pupils during a school assembly. The teachers will discuss bullying occasionally and when the need arises during school services and in class.*
- *'Assertive Discipline' rules and guidelines are clearly displayed in each class room.*
- *At the start of the year the teachers will review school/class rules with the pupils and ensure they are part of the process and are clear about the expectations / rewards and sanctions.*
- *Behaviour expectations/ anti bullying is discussed on a regular basis in a weekly Circle Time in class.*
- *A discipline leaflet is included in the Ysgol y Llys parents' handbook*
- *Any matter which causes concern is discussed with the school ESW and with the school educational psychologist.*
- *Any matters which cause concern are also discussed with the Chair of the Governing Body / Governors.*
- *The policy is reviewed with the Governors every two years.*

Working in Partnership- Consequences to actions.

Naturally, following challenging behaviour towards pupils and staff, a clear set of consequences must be in place to ensure consistency and to ensure such behaviours are not repeated. The school agreed consequences include, but not withstanding:

*Loss of break time priviliges.

*Loss of Amser Aur / free time session rewards.

*Potentially lose out on attending end of term school trip- and potentially only be refunded deposit of trip.

*In extreme cases of continous disruptive behaviour, the school can make a request to parents for a voluntary agreement that they take their child home during the lunch hour and return for afternoon sessions.

*If behaviour does not improve, the school may refer the child to Denbighshire Behaviour Support outreach service, and in some cases a placement at the Behaviour Unit can be made.

*Ultimately, if pupil behaviour is consistently disruptive and poses a health and safety threat to both pupils, staff and the pupil himself/herself, the school could also face a fixed term exclusion from school (Please refer to WAG guidance on Exclusions).

Monitoring, Evaluating and Reviewing the Policy

The policy is reviewed every two years. The policy will be reviewed next during the Spring term of 2025

YSGOL Y LLYS

Parents information sheet **DISCIPLINE POLICY**

Assertive Discipline:

At Ysgol Y Llys we have adopted the “Assertive Discipline” method of discipline throughout the school. It is a system approved by Denbighshire Education Authority.

In Ysgol y Llys we aim to develop positive discipline and have a structured reward system e.g.

Under 12 Unit: House points, Star (s) of the week, Welsh Speakers of the Week

Under 9 Unit: House points, Star (s) of the week, Welsh Speakers of the Week, Group Points

Under 7 Unit: House points, Star (s) of the week, Welsh Speakers of the Week, Pupil of the Week, Praise Stickers.

Under 5 Unit: House points, Welsh Speakers of the Week, Praise Stickers.

At the beginning of each academic year, children are involved in creating their own class rules - they have “ownership” of these rules.

They are introduced to, or revise the assertive Discipline system of reprimand – its success is largely due to the fact that the children are familiar with the process and the repercussions if the rules are broken.

The order of reprimands are as follows:

- 1. Oral Warning
- 2. Warning on the Chart
- 3. STAGE 1 Write a note of apology
- 4. STAGE 2- Time to think (Break time period)
- 5. STAGE 3- Time to think (Longer period)
- 6. Head teacher notified.
- 7. Parents to school.
- 8. Exclusion from school

The above steps are on display in the classroom, and if a child is reprimanded then the appropriate step (s) is/are circled against the child’s name and the necessary action is taken. This sheet is a record sheet for the teacher to refer to if/when required to do so.

The school adopts the CIRCLE TIME system as part of its pastoral policy. During this time each child is given the opportunity to share his/her feelings in a safe and “no blame” environment. It also gives the teacher an opportunity to identify any potential issues that may arise from time to time.

BULLYING is not tolerated in school. As parents it is important that you share any concerns you may have regarding your child with the school- be it as a bully or a victim. The school has a policy of discussing bullying

openly- to recognise, respond and solve.

As a staff we feel that it is important that you, as parents, understand the school's discipline process, and we hope that you will support us in this matter. If you have any questions regarding the policy, then please contact the school.

YSGOL Y LLYS

BULLYING

WE DO NOT ACCEPT ANY FORM OF BULLYING AT YSGOL Y LLYS.

CHILDREN

What is bullying?

- *A bully is an individual who makes life hard for others through picking on them intentionally and without reason.*
- *Bullying does not happen on one occasion but rather on numerous occasions.*
- *It may mean kicking, hair pulling or other things which hurt the body;*
- *It may be telling tales, name calling or threats which hurt you on the inside and make you feel afraid.*

What can you do?

- *Tell a member of staff immediately.*
- *Do not be afraid to be different. Every pupil at Ysgol y Llys is special.*
- *Do not take notice if you are called names- inform a member of staff.*
- *Do not show that you are afraid.*
- *If someone is picking on you, shout loudly to draw others' attention to this- YOU MUST INFORM US.*
- *Never side with the bully- stand shoulder to shoulder with the victim.*
- *If you are aware that someone is being bullied- inform a member of staff.*
- *Remember to discuss your feelings in 'Circle Time'.*
- *The staff will share any information of bullying with the bully's parents and with the parents of the child being bullied.*

STAFF

- *Bullying is unacceptable at Ysgol y Llys in any form, and it is vital that we all work together to ensure bullying does not happen.*
- *We discuss bullying in the classroom, during school assembly and also during Circle Time.*
- *We try to encourage children to help those who bully others to be part of the group and to understand the effects of their bullying on others. (Circle Time).*
- *If bullying happens, we must speak with the victim and the bully.*
- *We discuss answers and sanctions with children and parents.*

IT IS IMPORTANT THAT WE ARE OPEN AND DISCUSS OUR FEELINGS.